

Materion Addysg

1. Gwneud argymhellion Adroddiad Donaldson yn rhan annatod o arferion ysgolion.

Ers y cyfarfod diwethaf mae'r E-lythyrau Newyddion Dysg cyn-11 ac ôl-11 wedi bod yn canolbwyntio yn bennaf ar osod esiampl o ran arferion da yn ymwneud â'r Fframwaith Cymhwysedd Cenedlaethol a datblygiad pynciol. Mae diweddarau'r cyngor a gwella darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd wedi cael cryn sylw yn ddiweddar.

2. **Ymgynghoriad ynghylch achredu rhaglenni AGA yng Nghymru.** Y dyddiad cau i'r ymgynghoriad hwn oedd 4 Mai ac amgaeaf er gwybodaeth yn adroddiad anfonais at Lywodraeth Cymru.

3. Rwyf wedi anfon **E-lythyrau Newyddion Llywodraeth Cymru** yn rheolaidd at y Parchedig Hywel Richards.

4. Mae **Adroddiad Blynyddol Estyn**, 24 Ionawr, yn nodi mai dwy o'r prif negeseuon yw bod **safonau'r ddarpariaeth yn parhau i fod yn 'amrywiol'**, gyda'r bwlch rhwng perfformwyr gorau a gwaethaf Cymru'n dal 'yn rhy eang', ac mai **addysgu yw'r 'agwedd wanaf' ar hyn o bryd** ar draws y rhan fwyaf o feysydd addysg yng Nghymru. Mae hyn hyd yn oed yn fwy amlwg o gofio bod y Prif Arolygydd yn cytuno â'r rhan fwyaf o'r drafodaeth addysgol gyffredinol, sef mai **safon yr addysgu yw'r 'dylanwad mwyaf'** ar ba mor dda mae plant a phobl ifanc yn dysgu. I'r perwyl hwn, mae Estyn yn atgyfnerthu'r angen am y **diwygiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i hyfforddiant a datblygiad proffesiynol athrawon**. Rhai sylwadau allweddol eraill yw: mae mwy o fwch rhwng y perfformiad gorau a'r perfformiad gwaethaf ar lefel ysgol uwchradd nag ar lefel ysgol gynradd; mae yna duedd gynyddol o gyflwyno disgyblion yn gynnar ar gyfer arholiadau sy'n gallu bod yn fuddiol mewn rhai pynciau ond os caiff ei gymhwyso'n ehangach i garfanau mwy o ddisgyblion gall fod yn niweidiol; nid yw'r system yn gwneud digon i alluogi disgyblion mwy galluog a thalentog i gyflawni eu potensial. Mae'r Prif Arolygydd hefyd yn adrodd nad yw'r consortia rhanbarthol yn dadansoddi yn ddigonol cynnydd grwpiau o ddisgyblion nac yn gwneud digon i fynd i'r afael ag amrywioldeb mewn safonau, yn enwedig rhwng ysgolion uwchradd.

5. Pwyllgorau yr Eglwysi Rhyddion.

Roeddwn wedi gobeithio bod yn bresennol yng nghyfarfod o **Bwyllgor Addysg yr Eglwysi Rhyddion** (Cymru a Lloegr) yng Ngholeg Westhill, Birmingham ar 15 ac 16 Mawrth, 2017, ond methais â bod yno oherwydd annwyd trwm. Er nad wyf yn gallu bod yn bresennol yn eich cyfarfod heddiw, edrychaf ymlaen at fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf **Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru** yng Nghaerdydd ar 14 Tachwedd.